# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 27 Tachwedd 2025

Amser: 09.30 - 12.37

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/15411) yn:

http://senedd.tv/cy/15411

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Buffy Williams AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>Cefin Campbell AS<br>Russell George AS<br>Vaughan Gething AS<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg<br>Vikki Howells AS, Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch<br>Georgina Haarhoff, Llywodraeth Cymru<br>Ruth Meadows, Llywodraeth Cymru<br>Emyr Harries, Llywodraeth Cymru<br>Claire Bushell, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Leah Whitty (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Thomas Morris (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Datganodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch fod aelod agos o'r teulu yn astudio ym Mhrifysgol Abertawe.

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 - sesiwn dystiolaeth

2.1 Craffodd y Pwyllgor ar Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ynghylch y gyllideb ddrafft.

2.2 Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu nodyn ar y canlynol:

- y newidiadau i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg.

- data ar gyfranogiad a chanlyniadau dysgwyr yn y rhaglen Seren.

- y pwysau ehangach y mae'r sector addysg uwch yn eu hwynebu.

- yr arbedion refeniw ar gyfer ysgolion carbon sero-net.

- Pan fydd ar gael, bydd y gwerthusiad diweddaraf o'r rhaglen Taith yn cael ei rannu â'r Pwyllgor.

## 3 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papurau.

### 3.1 Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

### 3.2 Recriwtio a Chadw Athrawon

### 3.3 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu yn ôl at y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i ofyn am ragor o wybodaeth.

3.4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

3.5 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant

3.6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod cyfan ar 4 Rhagfyr

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 - trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiynau blaenorol. Byddai adroddiad drafft yn cael ei drafod yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.

## 6 Recriwtio a Chadw Athrawon - ystyried yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft. Byddai'n cael ei drafod eto yn y cyfarfod ar 17 Rhagfyr.